



Bwletin GwE

CYDWEITHIO

•

DYSGU

•

LLWYDDO



Rhannwch ein bwletin â thîm staff yr ysgol i gyd ac anogwch eich holl gyd-weithwyr i ymuno â'n [rhestr bostio](#).

NEGES GAN GwE



'Rwy'n siŵr ein bod fel cymdeithas addysg yma yng Ngogledd Cymru yn estyn ein cydymdeimlad dwysaf tuag at deulu Jonathan Morgan yn eu profedigaeth erchyll o golli person mor arbennig mor ddisymwrth. Yn yr un modd estynnwn ein cydymdeimlad at deulu Ysgol y Gogarth.

Mae aelodau o staff o ysgolion eraill wedi cael profedigaethau dros gyfnod yr Ŵyl a'r flwyddyn newydd ac estynnwn ein cydymdeimlad yn yr un modd atynt hwy a'u teuluoedd.

Dymunaf yr iechyd gorau i chi gyd wrth i ni gydweithio yn ystod 2023.

Arwyn H Thomas



Bryn Eirias, Ffordd Abergele,
Bae Colwyn, LL29 8BY



0300 500 8087



Canolfan Cefnogaeth GwE



@GwEGogleddCymru



post@gwegogledd.cymru



www.gwegogledd.cymru



g6.gwegogledd.cymru



GwE Gogledd Cymru

CYNNIG PROFFESIYNOL GwE

Cynnig Proffesiynol

Cofrestrwch drwy G6 os gwelwch yn dda.

Sicrhewch eich bod yn cofrestru ar G6 o leiaf 48 awr cyn y dyddiad cychwyn.

09/01/2023 - 31/03/2023	DYDDIAD	CYFRWNG
Cariad@Ddarllen - 3 sesiwn (Canolfan Fusnes Conwy)	25/01/2023 02/03/2023 16/03/2023	Dwyieithog
Gweithdy Mathemateg (Venue Cymru)	03/02/2023	Dwyieithog
Ysgolion sy'n Wybodus am Drawma - HYG	06/02/2023	Saesneg
Ysgolion sy'n Wybodus am Drawma - Bioffilia	06/02/2023	Saesneg
Gweithdy i Gymorthyddion sy'n addysgu dysgwyr 3-8 oed: Datblygu Sgiliau Trawsgwricwlaidd a Sgiliau Cyfannol drwy Wyddoniaeth (Gwesty Beaufort Park, Yr Wyddgrug)	06/02/2023	Saesneg
Gweithdy i Gymorthyddion sy'n addysgu dysgwyr 3-8 oed: Datblygu Sgiliau Trawsgwricwlaidd a Sgiliau Cyfannol drwy Wyddoniaeth (OpTIC, Llanellwly)	06/02/2023	Cymraeg
Gweithdy i Athrawon sy'n addysgu dysgwyr 3-8 oed: Datblygu Sgiliau Trawsgwricwlaidd a Sgiliau Cyfannol drwy Wyddoniaeth (Gwesty Beaufort Park, Yr Wyddgrug)	06/02/2023 20/03/2023	Saesneg
Gweithdy i Athrawon sy'n addysgu dysgwyr 3-8 oed: Datblygu Sgiliau Trawsgwricwlaidd a Sgiliau Cyfannol drwy Wyddoniaeth (OpTIC, Llanellwly)	06/02/2023 21/03/2023	Cymraeg
Gweithdy i Gymorthyddion sy'n addysgu dysgwyr 3-8 oed: Datblygu Sgiliau Trawsgwricwlaidd a Sgiliau Cyfannol drwy Wyddoniaeth (Ramada Inn, Wrecsam)	07/02/2023	Saesneg
Gweithdy i Gymorthyddion sy'n addysgu dysgwyr 3-8 oed: Datblygu Sgiliau Trawsgwricwlaidd a Sgiliau Cyfannol drwy Wyddoniaeth (Coed y Brenin, Dolgellau)	07/02/2023	Cymraeg
Gweithdy i Athrawon sy'n addysgu dysgwyr 3-8 oed: Datblygu Sgiliau Trawsgwricwlaidd a Sgiliau Cyfannol drwy Wyddoniaeth (Sesiwn 1 yn Ramada Inn, Wrecsam; Sesiwn 2 yng Nghlwb Pêl-droed Wrecsam)	07/02/2023 21/03/2023	Saesneg
Gweithdy i Athrawon sy'n addysgu dysgwyr 3-8 oed: Datblygu Sgiliau Trawsgwricwlaidd a Sgiliau Cyfannol drwy Wyddoniaeth (Coed y Brenin, Dolgellau)	07/02/2023 27/03/2023	Cymraeg
Gweithdy i Gymorthyddion sy'n addysgu dysgwyr 3-8 oed: Datblygu Sgiliau Trawsgwricwlaidd a Sgiliau Cyfannol drwy Wyddoniaeth (Plas Menai, Y Felinheli)	08/02/2023	Cymraeg
Gweithdy i Athrawon sy'n addysgu dysgwyr 3-8 oed: Datblygu Sgiliau Trawsgwricwlaidd a Sgiliau Cyfannol drwy Wyddoniaeth (Plas Menai, Y Felinheli)	08/02/2023 22/03/2023	Cymraeg
Gweithdy i Athrawon sy'n addysgu dysgwyr 3-8 oed: Datblygu Sgiliau Trawsgwricwlaidd a Sgiliau Cyfannol drwy Wyddoniaeth (Beaufort Park, Yr Wyddgrug)	09/02/2023 23/03/2023	Cymraeg
Gweithdy i Gymorthyddion sy'n addysgu dysgwyr 3-8 oed: Datblygu Sgiliau Trawsgwricwlaidd a Sgiliau Cyfannol drwy Wyddoniaeth (Beaufort Park, Yr Wyddgrug)	09/02/2023	Cymraeg
Rhaglen Cymorthyddion wrth eu Gwaith (2 ddiwrnod)	10/02/2023 & 03/03/2023	Cymraeg
Rhaglen Cymorthyddion wrth eu Gwaith (2 ddiwrnod)	10/02/2023 & 03/03/2023	Saesneg
Gweithdy i Gymorthyddion sy'n addysgu dysgwyr 3-8 oed: Datblygu Sgiliau Trawsgwricwlaidd a Sgiliau Cyfannol drwy Wyddoniaeth (Gwesty'r Oriel, Llanellwly)	14/02/2023	Saesneg
Gweithdy i Gymorthyddion sy'n addysgu dysgwyr 3-8 oed: Datblygu Sgiliau Trawsgwricwlaidd a Sgiliau Cyfannol drwy Wyddoniaeth (Oriel Mon, Llangefni)	14/02/2023	Cymraeg
Gweithdy i Athrawon sy'n addysgu dysgwyr 3-8 oed: Datblygu Sgiliau Trawsgwricwlaidd a Sgiliau Cyfannol drwy Wyddoniaeth (Gwesty'r Oriel, Llanellwly)	14/02/2023 27/03/2023	Saesneg
Gweithdy i Athrawon sy'n addysgu dysgwyr 3-8 oed: Datblygu Sgiliau Trawsgwricwlaidd a Sgiliau Cyfannol drwy Wyddoniaeth (Oriel Mon, Llangefni)	14/02/2023 29/03/2023	Cymraeg
Gweithdy i Gymorthyddion sy'n addysgu dysgwyr 3-8 oed: Datblygu Sgiliau Trawsgwricwlaidd a Sgiliau Cyfannol drwy Wyddoniaeth (Canolfan Fusnes Conwy)	15/02/2023	Saesneg
Gweithdy i Gymorthyddion sy'n addysgu dysgwyr 3-8 oed: Datblygu Sgiliau Trawsgwricwlaidd a Sgiliau Cyfannol drwy Wyddoniaeth (Clwb Golff Pwllheli)	15/02/2023	Cymraeg
Gweithdy i Athrawon sy'n addysgu dysgwyr 3-8 oed: Datblygu Sgiliau Trawsgwricwlaidd a Sgiliau Cyfannol drwy Wyddoniaeth (Clwb Golff Pwllheli)	15/02/2023 28/03/2023	Cymraeg
Gweithdy i Athrawon sy'n addysgu dysgwyr 3-8 oed: Datblygu Sgiliau Trawsgwricwlaidd a Sgiliau Cyfannol drwy Wyddoniaeth (Canolfan Fusnes Conwy)	15/02/2023 29/03/2023	Saesneg
Rhaglen Cymorthyddion wrth eu Gwaith (2 ddiwrnod)	07/03/2023 & 22/03/2023	Saesneg
DIWRNOD DATBLYGU CALU	16/03/2023	Dwyieithog
Rhaglen Cymorthyddion wrth eu Gwaith (2 ddiwrnod)	22/03/2023 & 29/03/2023	Cymraeg

Cynnig Dysgu Proffesiynol – Dysgu Digidol

RHAGLENNI CENEDLAETHOL

Diwrnod Datblygu CALU Cenedlaethol



16/03/2023



09:15 - 15:15



Venue Cymru, Llandudno

Cynhelir Diwrnod Datblygu Cenedlaethol ar 16 Mawrth i gymorthyddion addysgu sydd â statws CALU. Dyma gyfle i weld esiamplau o arfer effeithiol mewn ysgolion ar draws rhanbarth GwE.

Nid oes ffi ar gyfer mynychu'r digwyddiad ac ad-delir costau.

Siaradwr gwadd: Nina Jackson, Ymgynghorydd Addysg Cenedlaethol.

COFRESTRWCH DRWY G6



Llwybr Dysgu i Gymorthyddion Addysgu

'CYMORTHYDDION WRTH EU GWAITH' - rhaglen hyfforddiant cenedlaethol ar gyfer cymorthyddion addysgu sydd yn eu swydd ers dros dwy flynedd. *Ad-delir costau.*

Am fwy o wybodaeth, [cliciwch yma](https://www.gwe.gov.uk/cynorthwyddion).

COFRESTRWCH DRWY G6



Recruiwio Aseswyr ar gyfer Statws CALU (Cynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch)

Mae GwE yn chwilio am ymarferwyr i ymuno gyda'r tîm sydd ynghlwm wrth y Rhaglen Asesu Cynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch.

Rydym yn chwilio yn benodol am aseswyr sy'n gweithio mewn ysgolion Uwchradd ac Arbennig, ond yn croesawu ceisiadau o bob sector.

Fel aseswr, byddwch yn gyfrifol am asesu ymgeiswyr sydd wedi cwblhau'r Rhaglen Darpar CALU, ac sydd yn mynd ymlaen i gael eu hasesu ar gyfer statws CALU.

Am fwy o wybodaeth a manylion ymgeisio, [cliciwch yma](https://www.gwe.gov.uk/cynorthwywyr).

DYDDIAD CAU AR GYFER GWNEUD CAIS: 16 CHWEFOR 2023

Dysgu Proffesiynol ANG Rhanbarth GwE (Tymor 2 a 3)

Darperir Rhaglen Ranbarthol ANG GwE yn ystod y ddau dymor nesaf, gyda'r sesiynau yn cychwyn ym mis **Mawrth 2023**.

Manylion llawn ar gael [yma](https://www.gwe.gov.uk/cynorthwywyr). **Bydd rhaglen DP rhanbarthol i'r ANG yn Cynnig GwE erbyn diwedd wythnos nesaf.**

Rhennir y manylion â chi yn y rhifyn nesaf o'r Bwletin. Bydd angen i chi gofrestru ar blatfform G6 GwE i gael mynediad at yr hyfforddiant rhanbarthol [**NID y gofod Teams Cenedlaethol**]. Gweler y manylion [yma](https://www.gwe.gov.uk/cynorthwywyr).

Cyfle cyffrous i Gynorthwyrwyr Addysgu newydd!

Mae'r **Rhaglen Ymsefydlu Cynorthwyrwyr Addysgu** i unigolion sydd newydd eu penodi i'r swydd. Cyflwynir y rhaglen genedlaethol hon ar lwyfan ddigidol. Bydd modd cwblhau'r hyfforddiant ar amser sydd yn gyfleus i'r cynorthwyrwyr ac i'w lleoliad. Am fwy o wybodaeth a manylion am sut i gofrestru, [cliciwch yma](#).

Dosbarth Google i Gynorthwyrwyr Addysgu

Banc o adnoddau ar gyfer datblygiad proffesiynol cynorthwyrwyr addysgu, yn cynnwys pynciau megis: Cyngor y Gweithlu Addysg – defnyddio eich Pasbort Dysgu Proffesiynol; Safonau Proffesiynol ar gyfer Cynorthwyo Addysgu; Statws CALU; Cwricwlwm i Gymru; Adnoddau Hwb; Dysgu Cymraeg a llawer mwy.

Defnyddiwch eich e-bost Hwb i ymuno. Y cod er mwyn ymuno â'r dudalen yw [ghlyepw](#).

Defnyddiwch y ddolen hon am gyfarwyddiadau ar sut i gael mynediad at y dudalen drwy ddefnyddio eich cyfrif Hwb:

<https://cutt.ly/Cyfarwyddiadau-Google-Classroom-i-Gymorthyddion>

[Cliciwch yma](#) am gyfarwyddiadau dwyieithog ar sut i ddefnyddio Google Classroom, a dyma ddolen i droslais yn egluro beth sydd yn y Google Classroom: <https://cutt.ly/Troslais-Google-Classroom>

NEWYDDION A GWYBODAETH GwE

Llafaredd ar gyfer Dysgu ar draws y Cwricwlwm 2023



RHAGLEN DDATBLYGU 5 DIWRNOD I GRWPIAU BLWYDDYN 5-8

- Yn addas ar gyfer athrawon neu arweinwyr blynyddoedd 5 i 8 mewn ysgolion cynradd ac uwchradd sydd eisiau creu diwylliant o 'siarad er mwyn dysgu' a datblygu'r ddarpariaeth lafaredd i godi safonau ar draws y cwricwlwm.
- Yn ddelfrydol, bydd ysgolion eisoes wedi nodi bod datblygu lafaredd yn flaenoriaeth iddynt.
- Byddwch yn cymryd rhan mewn 2 diwrnod o weithdai gyda 'Llais21'; 1 diwrnod arall o lafaredd disgyblaethol (gyda phwyslais neilltuol ar fathemateg); 1 diwrnod o weithgarwch gweithredu yn yr ysgol; 1 diwrnod o rannu canfyddiadau â chydweithwyr.

Manylion llawn ar gael [yma](#).

Bydd y rhaglen yn cael ei darparu trwy gyfrwng y Saesneg, ond yn agored i bob ysgol.

Nodwch eich diddordeb gan ddefnyddio'r [ffurflen hon](#), erbyn **Dydd Mercher, 1 Chwefror 2023**

Mae llefydd yn gyfyngedig, felly am fwy o wybodaeth, cysylltwch â :

vickylees@gwegogledd.cymru / louiseusher@gwegogledd.cymru



Asesiadau Personol Llythrennedd a Rhifedd

Negeseuon Rhanbarthol Gwanwyn 2023

[Cliciwch yma](#) am y negeseuon rhanbarthol diweddaraf am asesiadau personol Gwanwyn 2023.



Cariad@ddarllen

Ydych chi am ddatblygu diwylliant o ddarllen a darllen er pleser ar draws eich ysgol?

Ymunwch â ni ar gyfer tridiau o raglen Dysgu Proffesiynol ddwyieithog ar gyfer lleoliadau cynradd ac uwchradd.

Manylion llawn ar gael [yma](#). **Cofrestrwch ar G6.**



DYDDIAD I'R DYDDIADUR: Cynhadledd Arweinyddiaeth Ôl-16



03/03/2023



Canolfan Busnes Conwy

Dymunwn hysbysu Arweinwyr Ôl-16 y rhanbarth y cynhelir Cynhadledd Arweinyddiaeth Ôl-16 yng Nghanolfan Busnes Conwy ddydd Gwener, 3 Mawrth 2023 - manylion y rhaglen a chyfle i gofrestru drwy G6 i ddod yn y flwyddyn newydd.

Adnoddau i Rieni a Gofalwyr

Helpu Eich Plentyn i Ddysgu – CYNRADD / BLYNYDDOEDD 7 AC 8

Cwrs cynhwysfawr i rieni plant 5-12 oed yw Helpu Eich Plentyn i Ddysgu gyda Mike Gershon, ac mae'n rhoi popeth sydd ei angen arnoch i gefnogi eich plentyn i ddysgu a'i helpu i dyfu a datblygu.

ADNODDAU: [CYMRAEG](#) | [ENGLISH](#)



Helpu Eich Plentyn yn ei Ardddegau i Ddysgu – BLYNYDDOEDD 9, 10 AC 11

Mae Helpu eich Plentyn yn ei Ardddegau i Ddysgu, gyda Mike Gershon, yn gwrs cynhwysfawr i rieni plant rhwng 13 ac 16 oed, sy'n rhoi popeth sydd ei angen arnynt i gefnogi eu plentyn i ddysgu a'i helpu i adolygu a pharatoi at arholiadau.

ADNODDAU: [CYMRAEG](#) | [ENGLISH](#)



HOLWCH YMGYNGHORYDD CEFNOGI GWELLIANT EICH YSGOL AM GÔD TALEB.

Her 100 Ysgol Let's Go Zero + One World

Gallwch gofrestru a chael adnoddau defnyddiol trwy ddilyn y ddolen hon: <https://oneworlduv.com/100-school-challenge/>



Lles

Education Support

Ydych chi eisiau teimlo eich bod wedi'ch adfywio, yn llawn egni ac am ddatblygu yn eich rôl?

[Cliciwch yma](#) i weld y gefnogaeth les a ariennir yn llawn ar gyfer arweinwyr ysgol, a ddarperir gan Education Support.

Diploma mewn Ysgolion a Chymunedau sy'n Wybodys am Drawma ac Iechyd Meddwl

STATWS YMARFERYDD

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â lindsay@traumainformedschools.co.uk / alys@traumainformedschools.co.uk

GwE 12 :	 Ionawr 2023	 Ysgol Glan Clwyd / Gwesty'r Oriel	 Manylion Pellach
GwE 13 :	 Ebrill 2023	 I'w gadarnhau	 Manylion Pellach
GwE 14 :	 Mehefin 2023	 I'w gadarnhau	 Manylion Pellach



GWYBODAETH GAN LYWODRAETH CYMRU

Diweddaru'r Strategaeth Tlodi Plant: Digwyddiad Ymgysylltu

Llenwch yr arolwg Smart Survey i fynegi diddordeb mewn ymuno â digwyddiadau ymgysylltu Gwanwyn 2023.

<https://www.smartsurvey.co.uk/s/5V46UJ/?lang=731457>



Mae mynd i'r afael â thlodi plant yn parhau i fod yn un o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru, ond Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am lawer o'r dulliau o gyflawni newid. Fodd bynnag, mae camau y gellir eu cymryd yng Nghymru i wella canlyniadau a bywydau y plant a'r bobl ifanc sy'n byw mewn tlodi. Rydym am i bob plentyn a phob person ifanc, ni waeth beth yw incwm ei deulu, allu gwireddu ei hawliau.

Ni allwn wneud hyn ar ein pen ein hunain. Rydym yn galw ar bob un o'n partneriaid allweddol ledled Cymru i ddod ynghyd, gan gryfhau effaith ein hymdrechion ar y cyd drwy weithio gyda'n gilydd tuag at nod cyffredin. Yn rhan o'r gwaith hwn rydym yn diweddaru adroddiad 2015: [Strategaeth Tlodi Plant Cymru: adroddiad | LLYW.CYMRU](#).

Gofynnwn ichi fod yn rhan o sgwrs bwysig am flaenoriaethau cenedlaethol i fynd i'r afael â thlodi ac ynghylch sut y gellir cyflawni'r blaenoriaethau hyn mewn partneriaeth â Llywodraeth leol a'r sector cyhoeddus, yn ogystal â phartneriaid ehangach yng Nghymru.

Dyma gam cyntaf y gwaith ymgysylltu, lle'r ydym yn gofyn i weithwyr proffesiynol a sefydliadau ddarparu eu safbwyntiau a'u harbenigedd.

[Datganiad Llafar: Cyhoeddi Adroddiad Cynnydd Tlodi Plant 2022 Llywodraeth Cymru \(13 Rhagfyr 2022\) | LLYW.CYMRU](#)

TrechuTlodiAChefnogiTeuluoedd@llyw.cymru


GWYBODAETH AC ARWEINIAD GAN ERAILL

Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion (SHRN)

AROLWG A GWEMINAR GWYBODAETH

Mae'r SHRN yn tynnu ynghyd ysgolion uwchradd yng Nghymru, ymchwilwyr, llunwyr polisiâu ac ymarferwyr o feysydd iechyd, addysg a gofal cymdeithasol, i gynhyrchu tystiolaeth o ansawdd da am wella iechyd, a'i defnyddio. Gan gydnabod gwerth y rhwydwaith hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu gwaith i ehangu SHRN i ysgolion cynradd ledled Cymru ac rydym yn falch iawn o allu ehangu'r gwaith hwn ymhellach fyth: [mae holl ysgolion cynradd prif ffrwd Cymru wedi cael y gwahoddiad hwn i gymryd rhan yn yr Arolwg Iechyd a Lles ar gyfer Myfyrwyr Cyfnod Allweddol 2, rhwng 30 Tachwedd 2022 a 31 Mawrth 2023](#).

Os oes gennych ddiddordeb mewn gwybod rhagor am sut y gall cymryd rhan yn yr arolwg hwn fod o fudd i'ch ysgol, [rydym yn cynnal gweminar gwybodaeth rhwng 3:30 – 4:30 ar 19 Ionawr 2023](#). Byddai'n wych eich gweld chi yno!



Cyfoeth Naturiol Cymru

BYWYD AR YR AFON - TAITH DRAWS GWRICWLAIDD LAWYR AFON

O'r cylch dŵr i addasiadau anifeiliaid, bywyd cyfrinachol y brithyll i sut i adeiladu gwâl dyfrgwn, bydd y weinar hon yn canolbwyntio ar afonydd Dyfrdwy a Thaf ond gall unrhyw un o'r gweithgareddau gael eu defnyddio i ddysgu mwy am unrhyw afon yng Nghymru a thu hwnt.

Yn drawsgwricwlaidd o ran cynnwys, bydd y sesiwn hon yn tynnu sylw at sut y gall dysgwyr wella eu gwybodaeth am drafferthion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ein hafonydd.

25.01.2023, 16:15 ar Teams – cyflwynir yn Saesneg

26.01.2023, 16:15 ar Teams – cyflwynir yn y Gymraeg

Gall unrhyw un sydd â diddordeb mewn mynychu gael rhagor o wybodaeth ac archebu eu lle drwy ymweld â thudalen [Tocyn Cymru CNC](#).



Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Y Diweddaraf gan ALPS

GWEMINAR 'MAXIMISING ACHIEVEMENT' (rhan o raglen *Alps Champions*)

Cofrestru drwy ddilyn y ddolen isod.

CA5 Cymru 17 Ionawr: <https://www.bigmarker.com/alps-education/KS5-Wales-Maximising-Achievement-with-Yr-13-in-final-11-weeks>

GWEMINAR HITTING THE GROUND

Aeth gweminarau *Hitting the Ground Cymru* yn fyw ym mis Medi.

Maen nhw'n dal ar gael am ddim 'ar alw'.

CA5 Cymru: <https://www.bigmarker.com/alps-education/Hitting-the-ground-running-Senior-Leaders-Autumn-Update-Wales-KS5>

GWEMINARAU ALPS CHAMPIONS MIS TACHWEDD AR GYFER CA5.

Maen nhw ar gael yn awr am ddim 'ar alw'.

CA5: <https://www.bigmarker.com/alps-education/Using-Alps-Connect-to-track-student-progress-at-KS5>

LANSIO BLOG NEWYDD

Mae blog newydd yn canolbwyntio ar godi cyflawniad ym Mlwyddyn 12 hefyd wedi'i lansio: ['Tackling Those Autumn Blues' - Top Tips For Raising Achievement With Year 12 Students - Alps](#)



Booktrust Cymru: Newyddion Tymor y Gwanwyn

[Digwyddiad Pori Drwy Stori gydag Awdur a Darlunydd - Dosbarthiadau Derbyn](#)



06/03/2023



DIGWYDDIAD ARLEIN



Bydd BookTrust Cymru yn cynnal digwyddiad Awdur a Darlunydd ar 06/03/23 ar gyfer dosbarthiadau Derbyn, gydag Awdur a Darlunydd Yr Arth a'i Llyfr Arbennig (The Bear and Her Book), Frances a Tosdevyn a Sophia O'Connor. Bydd ysgolion yn gallu cymryd rhan yn y digwyddiad ar-lein hwn, lle bydd Frances yn darllen The Bear and Her Book, Sophia yn cynnal sesiwn tynnu llun gyda'ch gilydd a'r ddwy yn ateb rhai o'ch cwestiynau. [Cofrestrwch](#) cyn gynted ag y bo modd i osgoi cael eich siomi.

Addysgu ac asesu mathemateg: Arolwg ymchwil

Mae ymchwilwyr o Brifysgol Bangor yn cynnal arolwg sy'n holi barn athrawon sydd â chyfrifoldeb am addysgu/asesu mathemateg mewn ysgolion cynradd ac uwchradd am eu dulliau addysgu. Os ydych chi'n addysgu/asesu mathemateg, gallwch gyfrannu at yr ymchwil drwy gwblhau [holiadur byr ar-lein](#). Ni ddylai gymryd mwy na 10 munud i'w gwblhau.

Cystadleuaeth Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig 2022-2023

Mae Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig yn trefnu [cystadleuaeth flynyddol](#) ar gyfer prosiectau treftadaeth yn ysgolion Cymru gan gynnig nifer o wobrau ariannol, gyda hyd at £1000 i'r enillwyr. Dyma gyfle gwych i'ch disgyblion rannu eu hymchwiliadau am eu *cynefin* â chynulleidfa ehangach a defnyddio eu sgiliau trawsgwricwlaidd a chyfannol! Croeso i chi gysylltu os ydych am sgwrs bellach. bethanjames@gwegogledd.cymru / jamesb143@hwb.cymru.net



<https://cy.whsi.org.uk/>



Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA)

Cliciwch [yma](#) am yr wybodaeth ddiweddaraf gan CGA, yn cynnwys:

- Ymuno â CGA
- Cefnogaeth Dysgu Proffesiynol
- CGA yn cyhoeddi Ystadegau Diweddaraf y Gweithlu
- Digwyddiadau Datblygu Proffesiynol
- Addysgwyr Cymru



MA Addysg (Cymru)

Mae gan Brifysgol Bangor gymhwyster MA mewn Addysg **wedi'i ariannu'n llawn** i athrawon fel rhan o'u datblygiad proffesiynol.

Cyflwynir y cymhwyster **ar-lein** ac mae ar gael **trwy gyfrwng y Gymraeg a thrwy gyfrwng y Saesneg**. Cynigir **tri llwybr posibl**: MA Addysg (Cymru), Anghenion Dysgu Ychwanegol, neu Arweinyddiaeth.

Mae lleoedd a ariennir yn gyfyngedig, ac mae meini prawf yn berthnasol. Gallwch ddod o hyd i ragor o fanylion [yma](#).

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â Dr Kaydee Owen (E-bost: kaydee.owen@bangor.ac.uk).

